**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A TAI**
**17 GORFFENNAF 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 17 Gorffennaf 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Gillian Brockley, Tina Claydon, Geoff Collett, Rosetta Dolphin, David Evans, Chrissy Gee, Kevin Rush a Dale Selvester |
| **DIRPRWYON:** | Y Cynghorwyr: Glyn Banks (ar ran Pam Banks), Rob Davies (ar ran Helen Brown a Ron Davies (ar ran Ted Palmer) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mynychodd y Cynghorydd Ian Hodge fel arsylwr. |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai); Rheolwr Gwasanaeth (Tai, Lles a Chymunedau) a'r Rheolwr Gwasanaeth Asedau Tai |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg |

**11. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**12. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHRED**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith gyfredol i'w hystyried, a oedd yn cynnwys diweddariad ar gamau gweithredu sy'n weddill.

Yn dilyn cwestiynau ynghylch yr adolygiad ar safle'r garej, cytunwyd y byddai adroddiad diweddaru ar yr adolygiad ar safle'r garej ynghyd â diweddariad ar y matrics parcio ceir yn cael ei ychwanegu ar y Rhaglen Waith.

Cytunwyd hefyd bod copi o ganlyniad yr adolygiad ar safle'r garej yn ôl ward yn cael ei ddosbarthu at holl Aelodau'r Cyngor.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; ac

(c) Y byddai'r Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 13. DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD O DAI GWARCHOD

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Lles Tai a Chymunedau) adroddiad wnaeth ddarparu diweddariad ar gynnydd yr Adolygiad Tai Gwarchod.

Hefyd cyflwynwyd y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu i'r Pwyllgor.

Awgrymwyd fod yr adroddiadau diweddaru cyfnodol ar yr Adolygiad Tai Gwarchod yn cael eu hychwanegu ar y Rhaglen Waith.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnydd yr Adolygiad Tai Gwarchod.

## 14. STRATEGAETH YMGYSYLLTIAD CWSMERIAID

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Lles Tai a Chymunedau) y Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid a Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Thenantiaid sy'n ymrwymo  i ymgysylltu â thenantiaid a thynnu sylw at y gwaith sydd angen ei wneud i wella'r sefyllfa bresennol.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi a chymeradwyo'r Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid.

## 15. RHEOLI CARTREFI GWAG

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Asedau Tai y ffigyrau a'r gweithgareddau allweddol wrth gyflawni'r cynllun gweithredu ar gartrefi gwag, fel y nodwyd yn y nodyn briffio.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad.

## 16. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.02 am)

...............................................

**Cadeirydd**